Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Penglais

**Waunfawr**
**Aberystwyth**
**Ceredigion**
**SY23 3AW**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Penglais

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Penglais |
| Awdurdod lleol | Ceredigion |
| Iaith y darparwr | Cyfrwng Saesneg |
| Math o ysgol | Uwchradd |
| Cymeriad crefyddol | Dd/b |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 1092 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 831 |
| Nifer yn y chweched dosbarth (os yw'n berthnasol) | 261 |
| Canran y disgyblion o oed ysgol statudol sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd<br><br>*(Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector uwchradd yw 18.7%)* | 12.8% |
| Canran y disgyblion o oed ysgol statudol y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a)<br><br>(*Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector uwchradd yw 21.7%*) | 34.8% |
| Canran y disgyblion o oed ysgol statudol sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 9.4% |
| Canran y disgyblion o oed ysgol statudol sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 3.1% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | Medi 2017 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 27.03.2019 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 16.05.2022 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru: fyysgolleol.llyw.cymru

(a) Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae arweinyddiaeth effeithiol a diwylliant o ymddiriedaeth wedi cryfhau'r addysgu a phrofiadau dysgu yn yr ysgol dros gyfnod. Mae perthnasoedd gweithio cadarnhaol cryf rhwng disgyblion a staff yn nodwedd gyson a phwysig yn Ysgol Penglais. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau aeddfed tuag at eu haddysg ac yn gweithio gyda staff i sicrhau bod yr ysgol yn amgylchedd dysgu tawel a phleserus. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymddwyn yn dda mewn gwersi, ac mae gan lawer ohonynt agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn ac yn cael cymorth da gan arweinwyr ar bob lefel. Gyda'i gilydd, maent yn darparu cyfeiriad strategol clir ac yn gwybod yn dda beth yw cryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Maent yn gwella ansawdd yn llwyddiannus.

Mae gan yr ysgol weledigaeth glir ar gyfer datblygu ei chwricwlwm sydd wedi'i seilio ar ganfyddiadau ymchwil ar arfer addysg effeithiol. Mae dysgu proffesiynol yn gryfder, ac mae datblygu'r addysgu yn ganolog i'r datblygiadau cwricwlaidd hyn. Mae athrawon yn cymryd rhan mewn ystod eang o fentrau ysgol gyfan a mentrau unigol i wella'u harfer. Mae hyn wedi arwain at addysgu o ansawdd cyson uchel sy'n arwain at ddatblygiad cadarn yng ngwybodaeth bynciol a medrau disgyblion. Mae disgyblion sy'n mynychu'r Ganolfan Adnoddau Clywed a'r Ganolfan Cymorth Dysgu yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn hefyd.

Mae llawer o athrawon yn cynllunio'n bwrpasol i sicrhau bod disgyblion yn datblygu eu medrau meddwl yn dda. Ceir darpariaeth gref ar gyfer medrau llythrennedd disgyblion, ac o ganlyniad, mae medrau llafaredd, darllen ac ysgrifennu disgyblion wedi'u datblygu'n dda. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau digidol disgyblion.

Mae disgyblion a astudiodd y Gymraeg fel iaith gyntaf yn eu hysgolion cynradd yn parhau i wneud hynny yn Ysgol Penglais, ac fe gaiff y rhan fwyaf o ddisgyblion eu cofrestru ar gyfer cymhwyster Cymraeg iaith gyntaf neu ail iaith ym Mlwyddyn 11. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn hyrwyddo ethos Cymreig yn ddigon da, ac mae cyfleoedd annigonol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg.

Mae gan yr ysgol ystod eang o strategaethau i gefnogi lles pob un o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai sydd angen cymorth emosiynol. Mae'r ysgol wedi darparu cymorth da ar gyfer disgyblion bregus wrth iddynt ddychwelyd i fywyd ysgol ar ôl pandemig COVID-19. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o arolygon llais y disgybl i werthuso blaenoriaethau lles a gweithredu cynlluniau i wella darpariaeth ar gyfer yr agwedd hon. O ganlyniad i'r gofal a'r cymorth a ddarperir gan staff, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae gwaith i wella darpariaeth yr ysgol ar gyfer addysg bersonol, gymdeithasol ac iechyd. Yn ychwanegol, nid yw'r ysgol bob amser yn cyfathrebu'n ddigon da â rhieni a disgyblion ar sut yr eir i'r afael ag achosion o ymddygiad gwael neu fwlio honedig.

## Argymhellion

A1 Cynyddu'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg

A2 Cryfhau diwylliant diogelu'r ysgol trwy gyfathrebu'n glir â'r holl ddisgyblion a rhieni ynglŷn â sut yr eir i'r afael ag achosion o ymddygiad gwael a bwlio honedig, yn ogystal â gwella'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol

A3 Gwella darpariaeth drawsgwricwlaidd i ddatblygu medrau digidol disgyblion

A4 Mynd i'r afael â'r pryderon iechyd a diogelwch a rannwyd gyda'r ysgol yn ystod yr arolygiad

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaethau achos ar ei gwaith yn gysylltiedig â'i rhaglen dysgu proffesiynol a'i gwaith yn gweithredu Cwricwlwm i Gymru, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Mewn gwersi a thros gyfnod, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau ac mae ychydig o ddisgyblion yn gwneud cynnydd hynod gryf. Mae llawer ohonynt yn galw dysgu blaenorol i gof yn dda, a gallant gymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn llwyddiannus mewn cyd-destunau newydd. Er enghraifft, mewn hanes, mae disgyblion yn cymhwyso eu gwybodaeth flaenorol yn llwyddiannus i werthuso ystod o ffynonellau hanesyddol a llunio casgliadau am achosion yr Holocost.

Un o gryfderau penodol yr ysgol yw'r ffordd y mae disgyblion yn datblygu eu medrau meddwl. Mae llawer ohonynt yn datblygu eu gallu i feddwl yn ddwfn, dyfalbarhau a datrys problemau'n dda. Er enghraifft, yn eu gwersi mathemateg, gall disgyblion addasu eu dealltwriaeth o un cysyniad algebraidd i ddatrys problem gysylltiedig heb fod angen i'r athro esbonio'r cysyniad newydd hwn. Mewn daearyddiaeth, mae disgyblion yn gweithio mewn grwpiau bach yn llwyddiannus i ystyried goblygiadau dirywiad economaidd i agweddau ar gymdeithas.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n dda ar gyfarwyddiadau eu hathrawon a chyfraniad eu cyfoedion. Mae llawer ohonynt yn cyfrannu'n dda at drafodaethau grŵp a dosbarth gan ddefnyddio ystod eang o eirfa sy'n benodol i bwnc. Er enghraifft, mae disgyblion yn rhoi ymatebion estynedig wrth esbonio eu dewis o'r geiriau allweddol yn y gerdd "The Boxer" a sut maent yn cyfleu meddyliau'r bardd. Mewn Cymraeg ail iaith, gall mwyafrif o ddisgyblion siarad mewn brawddegau llawn yn briodol. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion sy'n dilyn y llwybr hwn yn meddu ar ddealltwriaeth ddigon cadarn o strwythur brawddeg neu eirfa ddigonol i ymateb yn annibynnol. Mewn gwersi Cymraeg iaith gyntaf, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb i gwestiynau athrawon gyda lefelau addas o rugldер. Fodd bynnag, nid oes ganddynt hyder wrth sgwrsio yn Gymraeg gyda disgyblion eraill.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meddu ar fedrau darllen cadarn. Maent yn brasddarllen i gadarnhau'r prif bwyntiau, ac yn gallu bwrw golwg dros amrywiaeth o destunau yn hyderus er mwyn dod o hyd i wybodaeth. Mae llawer o ddisgyblion yn archwilio a dadansoddi testunau yn dda i lunio casgliadau perthnasol ac olrhain ystyr dyfnach yn llwyddiannus, er enghraifft pan fyddant yn dadansoddi iaith Shakespeare i ddangos sut mae Macbeth yn arddangos hyder. Mae llawer ohonynt yn cyfosod a chrynhoi gwybodaeth yn dda. Mae ychydig o ddisgyblion yn dangos dealltwriaeth a dehongliad rhagorol o'r hyn y maent wedi'i ddarllen trwy ymatebion soffistigedig i gwestiynau.

Mae llawer o ddisgyblion yn cynhyrchu ysgrifennu estynedig o ansawdd da. Maent yn ysgrifennu gyda chywirdeb technegol cadarn ac yn cyfleu eu syniadau'n glir. Mae llawer ohonynt yn defnyddio ystod o strwythurau iaith yn fedrus i wella rhuglder eu hysgrifennu ac ennyn diddordeb y darllenydd. Maent yn dangos ymwybyddiaeth dda o gynulleidfa a diben yn eu hysgrifennu. Maent yn cynnig safbwyntiau a chasgliadau rhesymegol ac wedi'u rhesymu'n ddeheuig, er enghraifft wrth ystyried p'un a ellid bod wedi atal y tswnami yn Palu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n astudio Cymraeg iaith gyntaf yn ysgrifennu'n estynedig yn gymwys, er enghraifft wrth ddefnyddio cyffelybiaethau'n effeithiol i ddisgrifio ymddangosiad ac ystumiau perthynas. Gall mwyafrif y disgyblion sy'n astudio Cymraeg ail iaith ysgrifennu darnau byr yn briodol. Maent yn sillafu'r rhan fwyaf o eiriau'n gywir ac yn amrywio'u ffyrdd o ddechrau brawddegau. Fodd bynnag, mae ychydig o ddisgyblion sy'n astudio Cymraeg ail iaith yn cael trafferth ffurfio brawddegau cyflawn.

Mae llawer o ddisgyblion yn meddu ar fedrau rhif sylfaenol ac yn defnyddio pedair rheol rhifyddeg yn gymwys. Maent yn hyderus yn defnyddio degolion, ffracsiynau a chanrannau. Maent yn cymhwyso eu dealltwriaeth o gymhareb a chyfran i addasu ryseitiau ar gyfer gwahanol niferoedd o ddognau. Mae llawer o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o siapiau a mesurau. Maent yn cyfrifo mesurau cyfansawdd fel cyflymder a dwysedd, ac yn gallu cymhwyso'u dealltwriaeth o Theorem Pythagoras i ddatrys problemau mewn tri dimensiwn, er enghraifft wrth gyfrifo uchder pyramidiau. Mae'r disgyblion hyn yn gwneud cysylltiadau rhesymegol rhwng gwahanol feysydd mathemateg, ac o ganlyniad, gallant gymhwyso eu dealltwriaeth i ddatrys problemau a osodir mewn gwahanol gyd-destunau. Maent yn dadansoddi data yn dda ac yn cyfrifo cyfartaleddau a phlotio graffiau'n hyderus, gan eu defnyddio i lunio casgliadau wedi'u rhesymu'n ddeheuig. Er enghraifft, mewn gwyddoniaeth, mae disgyblion yn defnyddio data i esbonio'r berthynas rhwng pŵer lamp a'r ymwrthedd. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn nodi anomaleddau yn llwyddiannus ynghyd â chyfyngiadau'r data a ddefnyddir i blotio graff.

Oherwydd y diffyg cyfleoedd pwrpasol, nid yw disgyblion yn datblygu eu medrau digidol yn ddigon da.

Yn gyffredinol, mae disgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn dda. Er enghraifft, mewn dylunio a thechnoleg, mae disgyblion yn dangos dawn benodol am greadigrwydd wrth ddylunio bachyn côt neu wrth amrywio cynhwysion tra'n gwneud cyri cyw iâr. Mewn gwersi addysg gorfforol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da, er enghraifft wrth wella'u techneg i daro pêl mewn rownderi neu ddatblygu eu techneg wrth ddechrau sbrintio.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), gan gynnwys y rhai sy'n mynychu'r Ganolfan Adnoddau Clywed a'r Ganolfan Cymorth Dysgu, yn gwneud cynnydd da o ran eu galluoedd a'u hanghenion cydnabyddedig. Mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau cyfathrebu, llythrennedd a rhifedd. Er enghraifft, mae disgyblion yn y Ganolfan Adnoddau Clywed yn gwneud cynnydd cryf wrth ddysgu Iaith Arwyddion Prydain. Yn gyffredinol, mae disgyblion ag anghenion ychwanegol yn rhyngweithio'n dda â chyfoedion, staff ac ymwelwyr â'r ysgol. Mae disgyblion yn y Ganolfan Adnoddau Clywed a'r Ganolfan Cymorth Dysgu yn ennill cymwysterau gwerthfawr.

Mae disgyblion yn y chweched dosbarth yn dangos aeddfedrwydd ac agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu. Yn gyffredinol, maent yn gwneud cynnydd cryf a chadarn mewn gwersi, er enghraifft wrth ddatblygu eu dealltwriaeth o dechnegau gwahanol arlunwyr, fel swrrealaeth yng ngwaith yr arlunydd Charles Luna. Mae llawer ohonynt yn galw gwybodaeth flaenorol i gof yn gadarn, er enghraifft pan fyddant yn archwilio arwyddocâd y lleuad mewn llenyddiaeth wrth ddadansoddi cerddi nad ydynt wedi eu gweld o'r blaen, neu wrth ddatrys problemau dynameg

mewn mathemateg. Maent yn cyfrannu'n hyderus at drafodaethau ystafell ddosbarth gan ddefnyddio geirfa soffistigedig, ac yn cyfleu eu safbwyntiau'n glir.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos medrau cymdeithasol cryf ac yn rhyngweithio'n aeddfed â staff, eu cyfoedion ac ymwelwyr. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac wrth symud o gwmpas yr ysgol. Maent yn cyrraedd gwersi'n brydlon, ac mae bron pob un ohonynt yn deall disgwyliadau'r ysgol o ran ymddygiad, gan gynnwys y system wobrau a chosbau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n barchus yn y dosbarth, yn gadael i ddisgyblion eraill siarad heb dorri ar eu traws ac yn ymgysylltu'n dda mewn trafodaethau dosbarth. Mae llawer ohonynt yn ymfalchïo yng nghyflwyniad eu gwaith ac yn ymateb yn bwrpasol i sylwadau eu hathrawon ar gyfer gwella. Mae ganddynt agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu ac yn dangos gwydnwch pan fyddant yn wynebu tasgau heriol. Fodd bynnag, mae rhai ohonynt yn rhoi'r gorau i ganolbwyntio, yn enwedig tuag at ddiwedd gwersi.

Mae disgyblion yn y Ganolfan Cymorth Dysgu a'r Ganolfan Adnoddau Clywed yn mwynhau mynd i'r ysgol, ac o ganlyniad, maent yn cymryd rhan yn dda mewn gwersi. Mae llawer ohonynt yn deall ac yn dilyn arferion sefydledig yn briodol ac yn gweithio'n gadarnhaol gyda'u cyfoedion a staff. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gweithio'n annibynnol i gwblhau tasgau ac yn gofyn am help pan fydd angen. Gallant gwblhau tasgau gydag annibyniaeth gynyddol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel a saff yn yr ysgol, ac yn teimlo eu bod yn cael gofal da gan staff, yn cynnwys y disgyblion hynny sy'n ofalwyr ifanc. Mae llawer o ddisgyblion yn teimlo eu bod yn rhydd rhag bwlio ac yn gwybod ble i fynd os bydd angen cymorth arnynt. Mae llawer o ddisgyblion yn teimlo bod yr ysgol yn amgylchedd cynhwysol a'i bod yn dathlu amrywiaeth mewn modd cadarnhaol. Maent yn teimlo eu bod yn cael eu hannog i barchu safbwyntiau a barn pobl eraill. Yn ystod amser tiwtor, mae disgyblion yn trafod themâu cyfoes yn aeddfed, er enghraifft sut bethau yw gwahanol unedau teuluol mewn cymdeithas fodern. Fodd bynnag, dywed lleiafrif ohonynt nad ydynt bob amser yn teimlo bod yr ysgol yn annog disgyblion i barchu pawb, gan ystyried eu hil, rhywedd, rhywioldeb, crefydd, cefndir neu anabledd. Dywed ychydig o ddisgyblion nad yw'r ysgol yn delio'n ddigon da ag achosion o fwlio.

Mae llawer o ddisgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu trin yn deg, ac mae tua hanner ohonynt yn teimlo bod yr ysgol yn gwrando'n dda ar eu safbwyntiau a'u barnau, ac yn gweithredu ar awgrymiadau i wella a wneir gan y Tîm Arweinyddiaeth Myfyrwyr. Caiff disgyblion o'r Ganolfan Cymorth Dysgu a'r Ganolfan Adnoddau Clywed eu cynrychioli mewn gweithgareddau llais y disgybl, er enghraifft y Tîm Arweinyddiaeth Myfyrwyr, llysgenhadon chwaraeon a chyflwyno hyfforddiant Iaith Arwyddion Prydain i staff a disgyblion. Mae hyn yn cefnogi eu hymdeimlad o fod yn aelodau gwerthfawr o gymuned yr ysgol. Fodd bynnag, mae disgyblion yn teimlo nad ydynt yn cael digon o gyfleoedd i wneud i'w llais gael ei glywed, ar y cyfan. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu hannog i fyw yn iach trwy wneud dewisiadau gwybodus am fwyd a chymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon yn yr ysgol ac ar ôl y diwrnod ysgol.

Mae disgyblion yn y chweched dosbarth yn dangos aeddfedrwydd, annibyniaeth ac uchelgais. Maent yn teimlo eu bod yn cael cymorth da gan yr ysgol, a'u bod yn barod ar gyfer y dyfodol. Maent yn gwerthfawrogi'r cymorth bugeiliol ac academaidd a ddarperir gan yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys y cyfarfodydd cynnydd rheolaidd gydag anogwr dysgu. Maent yn hyderus y gallant gael cymorth neu gyngor, pryd bynnag mae ei angen.

Yn sgil pandemig y coronafeirws, ni fydd arolygwyr yn adrodd ar gyfraddau presenoldeb disgyblion yn ystod blynyddoedd academaidd 2020-2021 a 2021-2022. Fodd bynnag, bydd arolygwyr yn ystyried darpariaeth yr ysgol ar gyfer monitro a gwella presenoldeb fel rhan o faes arolygu 4 (gofal, cymorth ac arweiniad).

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol gref ac yn frwdfrydig am eu pynciau. Yn gyffredinol, mae athrawon yn meithrin perthnasoedd gweithio cadarnhaol gyda disgyblion, ac mae gan lawer ohonynt ddisgwyliadau uchel o'u hymddygiad a'r hyn y gallant ei gyflawni. Maent yn gweithio'n dda gyda staff cymorth dysgu i addasu eu haddysgu i gynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae llawer o athrawon yn fodelau rôl da o ran iaith ac yn helpu disgyblion i ddatblygu eu geirfa.

Mewn llawer o achosion, mae athrawon yn cynllunio eu gwersi'n ofalus ac yn darparu adnoddau dysgu o ansawdd uchel ar gyfer disgyblion sy'n ennyn eu diddordeb yn dda yn eu dysgu. Maent yn cynnig esboniadau clir i ddisgyblion ac yn rhannu cysyniadau cymhleth yn gamau llai, mwy hylaw. Maent yn gwirio dealltwriaeth disgyblion ac yn cynnig cymorth gwerthfawr iddynt pan fydd angen. Pan fydd yn briodol, mae llawer o athrawon yn atgyfnerthu dysgu disgyblion yn fuddiol trwy gysylltu dysgu newydd â chysyniadau cysylltiedig y maent wedi eu hastudio yn y gorffennol.

Mae llawer o athrawon yn defnyddio ystod eang o dechnegau yn fedrus i gael disgyblion i drafod eu syniadau. Maent yn gwirio bod disgyblion yn gallu galw i gof ac yn defnyddio cwestiynau agored i'w cael i feddwl. Yn aml, maent yn dilyn trywydd atebion disgyblion yn fuddiol i'w hannog i ymestyn eu hymatebion a datblygu eu rhesymu. Ym mwyafrif yr achosion, mae athrawon yn meithrin amgylchedd dysgu lle nad yw disgyblion yn ofni gwneud camgymeriadau.

Mewn ychydig o achosion, ceir addysgu ysbrydoledig sy'n golygu bod disgyblion yn gwneud cynnydd cyflym iawn o ganlyniad. Yn yr achosion hyn, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel iawn o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni. Maent yn adnabod eu disgyblion yn dda iawn ac yn cynllunio'u gwersi yn fanwl gywir. Mae'r athrawon hyn yn darparu cyfres o dasgau cynyddol heriol ar gyfer disgyblion sy'n gofyn iddynt feddwl yn ddwys. Maent yn monitro cynnydd yn agos, gan addasu cyflymdra'r addysgu yn ddeheuig fel ei fod yn cyd-fynd â chyflymdra'r dysgu. Maent yn defnyddio technegau holi medrus i brocio meddwl disgyblion ac yn mynnu ymatebion o ansawdd uchel ganddynt.

Mae llawer o athrawon yn rhannu enghreifftiau o beth sy'n gyfystyr â gwaith o ansawdd uchel, ac yn ennyn diddordeb disgyblion mewn trafodaethau buddiol ynglŷn â sut i asesu eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill. Mewn llawer o achosion,

mae athrawon yn rhoi adborth ysgrifenedig buddiol i ddisgyblion ar eu gwaith, a chyfleoedd defnyddiol i wella agweddau penodol. Maent yn sicrhau bod disgyblion yn ymateb yn bwrpasol i'w sylwadau. Mewn ychydig o achosion, fodd bynnag, nid yw adborth athrawon yn helpu disgyblion i ddeall sut i wella'u gwaith. Nid yw eu sylwadau yn ddigon manwl gywir neu nid ydynt yn sicrhau bod disgyblion yn ymateb yn briodol i'r adborth a ddarparwyd.

Mewn ychydig o wersi, nid oes gan athrawon ddisgwyliadau digon uchel o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni. Nid yw'r athrawon hyn yn cynllunio'u gwersi'n ddigon da. Maent yn rhoi gwaith i ddisgyblion sy'n eu cadw'n brysur ond nid yw'n ysgogi cynnydd yn eu gwybodaeth neu fedrau. Nid ydynt yn defnyddio holi'n ddigon da i gael disgyblion i feddwl, ac yn aml yn gwneud cyflwyniadau rhy hir lle mae disgyblion yn colli diddordeb.

Mae gan yr ysgol weledigaeth glir ar gyfer ei chwricwlwm sydd wedi'i seilio ar yr egwyddorion y mae'r ysgol wedi'u nodi ynghylch Cyfathrebu, Lles a Bod yn Gadarnhaol, Gwybodaeth, Diwylliant Creadigol a Chynwysoldeb. Mae dylunio'r cwricwlwm wedi'i seilio ar ymchwil ac wedi'i gysylltu'n fuddiol â datblygu addysgu. Mae arweinwyr wedi darparu hyfforddiant pwrpasol, wedi'i lywio gan ymchwil ar gyfer staff, ac mae adrannau'n creu cwricwlwm sydd â nod i sicrhau cynnydd o fewn eu pynciau a meysydd dysgu. Ffurfiwyd egwyddorion cwricwlwm yr ysgol trwy ymgynghori â staff, disgyblion, rhieni a llywodraethwyr. Mae gan yr ysgol drefniadau buddiol ag ysgolion cynradd lleol i sicrhau bod y cwricwlwm ym Mlwyddyn 7 yn adeiladu'n dda ar brofiadau disgyblion yn ystod cyfnod allweddol 2. Megis dechrau y mae gwaith gyda'r ysgolion cynradd hyn i ddatblygu cynnydd dysgu yn y Cwricwlwm i Gymru.

Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm cytbwys sy'n llwyddo i ddiwallu anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai yn y ddwy ganolfan adnoddau lle maent yn cael cyfleoedd dysgu perthnasol a phriodol. O gyfnod allweddol 3 i'r chweched dosbarth, mae'r ysgol yn darparu ystod eang o opsiynau cwricwlwm ac yn cynnig cyfle i ddilyn cyrsiau gyda darparwyr allanol, gan ddiwallu gwahanol anghenion dysgu. Mae staff yn darparu cymorth ac arweiniad gwerthfawr i ddisgyblion ynglŷn â'u hopsiynau a'r camau nesaf. Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn briodol, at ei gilydd.

Darperir gwersi Cymraeg iaith gyntaf ar gyfer y disgyblion hynny sydd wedi ymuno â'r ysgol o ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, nid oes cyfleoedd digonol i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg mewn pynciau eraill. Nid yw'r ysgol yn hyrwyddo manteision dysgu a siarad Cymraeg yn ddigon da, ac nid yw wedi sicrhau ethos Cymreig cryf.

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o gyfleoedd defnyddiol i gymhwyso eu medrau rhifedd mewn gwahanol gyd-destunau ar draws meysydd priodol y cwricwlwm. Yn ychwanegol, mae ystod eang o gyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatrys problemau wedi'u geirio a phroblemau aml-gam mewn mathemateg. Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion yn gryfder nodedig. Mae arweinwyr wedi darparu dysgu proffesiynol hynod effeithiol i staff ar sut i addysgu agweddau ar lythrennedd. O ganlyniad, mae ystod eang o gyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llafaredd, darllen ac ysgrifennu estynedig mewn llawer o bynciau. Mae arweinwyr yn gweithio'n effeithiol gyda llyfrgellydd yr ysgol i greu

cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddarllen, sy'n hyrwyddo diwylliant o ddarllen er pleser yn yr ysgol. Mae'r ysgol yn darparu ystod o ymyriadau buddiol i gynorthwyo disgyblion â medrau llythrennedd a rhifedd gwan. Nid yw'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau digidol disgyblion wedi'i datblygu'n ddigonol.

Mae'r ysgol yn darparu'n dda ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog. Er enghraifft, mae cynorthwyydd addysgu yn yr adran Saesneg yn ymestyn dysgu'r disgyblion mwyaf abl trwy ddatblygu eu meddwl a'u geirfa. Ceir ystod eang o bynciau opsiwn cyffredinol, gan gynnwys tair iaith fodern dramor a gwyddorau ar wahân mewn TGAU, a mathemateg bellach mewn Safon Uwch.

**Gofal, cymorth ac arweiniad**

Mae Ysgol Penglais yn gymuned ofalgar, ac mae staff yn adnabod eu disgyblion yn dda. Ers y pandemig, mae'r ysgol wedi darparu cymorth buddiol i ddisgyblion ddychwelyd i'r ysgol ac ymgysylltu o'r newydd â dysgu. Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd cefnogol a gofalgar. Yn ddiweddar, mae uwch arweinwyr wedi cryfhau'r agwedd hon ar waith yr ysgol. Er enghraifft, maent wedi darparu hyfforddiant defnyddiol ar gyfer tiwtoriaid dosbarth ac wedi cyflwyno protocol i arwain eu gofal ar gyfer disgyblion. Mae arweinwyr yn trefnu bod gwybodaeth bwysig am ddisgyblion unigol ar gael i bob aelod o staff sy'n defnyddio'r wybodaeth hon yn sensitif i gefnogi dysgu a lles disgyblion. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag ADY, yn gwneud cynnydd da ac yn mwynhau'r ysgol.

Yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi cynnal arolygon i fonitro lles disgyblion a rhoi cyfleoedd iddynt fynegi eu barn am yr ysgol. Maent yn dadansoddi'r canfyddiadau yn ofalus ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i gynllunio gwelliannau. Mae grŵp cydraddoldeb ac amrywiaeth, sy'n gynnwys cynrychiolwyr o blith llywodraethwyr, staff a disgyblion, yn fforwm pwysig ar gyfer sefydlu egwyddorion a chytuno ar gamau gweithredu i ddatblygu diwylliant o barch ar draws yr ysgol ymhellach.

Mae disgyblion yn elwa ar wasanaethau cwnsela a gwaith ieuenctid ar safle'r ysgol. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gydag ystod o bartneriaid allanol i ddarparu cymorth ar gyfer disgyblion a theuluoedd lle mae angen. Yn y chweched dosbarth, mae pedwar anogwr dysgu yn cyfarfod yn rheolaidd â phob un o'r disgyblion, ac yn darparu cymorth ychwanegol i lawer, er enghraifft i helpu â cheisiadau prifysgol.

Mae gan yr ysgol ystod eang o raglenni arloesol i gynorthwyo disgyblion bregus, ac mae wedi cyflogi staff penodol i gryfhau'r agwedd hon ar ei darpariaeth. Mae 'Caban' yn ofod diogel ar gyfer disgyblion ag anawsterau cymdeithasol ac emosiynol. Mae staff yn 'Y Bont' yn addysgu cyrsiau priodol i grŵp bach o ddisgyblion mewn partneriaeth â darparwyr lleol. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi ennill gwobr am ei gwaith gyda gofalwyr ifanc, sy'n cyfarfod yn rheolaidd yn eu hardal eu hunain i gefnogi lles ei gilydd. Mae aelod o staff yn darparu cymorth amser llawn buddiol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo presenoldeb da a gweithio gyda theuluoedd lle mae presenoldeb disgyblion yn wan.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gryfder nodedig. Mae anogwr athrawon yn hyfforddi pob aelod o staff yn y strategaethau mwyaf effeithiol ar gyfer cynorthwyo disgyblion â gwahanol anghenion ar draws y cwricwlwm. Caiff y cydlynydd ADY drosolwg cynhwysfawr o'r ddarpariaeth

ar gyfer disgyblion ag ADY, a'u cynnydd. Mae llawer o'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da trwy ddarparu ymyriadau targedig buddiol, er enghraifft cymorth gan gynorthwyydd addysgu i wella eu sillafu mewn gwersi amlsynhwyraidd.

Mae'r Ganolfan Cymorth Dysgu a'r Ganolfan Adnoddau Clywed yn darparu awyrgylch tawel a chroesawgar ar gyfer disgyblion. Mae staff yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn datblygu perthnasoedd cefnogol a chadarnhaol gyda nhw. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ymddygiad a chynnydd disgyblion, ac maent yn cefnogi dysgu ac annibyniaeth disgyblion yn dda, er enghraifft trwy eu helpu i reoli eu hemosiynau a'u hymatebion emosiynol i bobl eraill.

Mae gan yr ysgol ddarpariaeth briodol i gefnogi datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Ar ôl y pandemig, mae'r ysgol yn dechrau ailgyflwyno ystod addas o weithgareddau allgyrsiol buddiol, er enghraifft mewn chwaraeon a cherddoriaeth.

Mae gan yr ysgol bolisïau perthnasol ar waith ar gyfer diogelu, gwrthfwlio ac e-ddiogelwch ac mae'n darparu hyfforddiant buddiol ar gyfer diogelu i bob aelod o staff. O ganlyniad, mae staff yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau'n dda o ran cadw disgyblion yn ddiogel. Mae'r ysgol yn ymateb yn effeithiol i bryderon am amddiffyn plant ac yn gwneud atgyfeiriadau perthnasol i asiantaethau allanol.

Mae gan yr ysgol brosesau addas i ddisgyblion adrodd am bryderon am eu lles. Mae staff yn cadw cofnodion manwl o'r holl ddigwyddiadau difrifol yn ymwneud ag ymddygiad a bwlio, ac yn defnyddio partneriaid yr ysgol i gynorthwyo'r disgyblion dan sylw. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r cyfathrebu rhwng yr ysgol a rhanddeiliaid perthnasol ar ôl digwyddiadau'n ymwneud â bwlio ac ymddygiad gwael bob amser yn effeithiol. Tynnwyd sylw'r ysgol at ychydig o faterion iechyd a diogelwch.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir am ysgol hapus, uchelgeisiol sy'n cyflawni'n uchel lle caiff pawb eu parchu a'u gwerthfawrogi. Mae'r weledigaeth hon wedi cael ei chyfleu yn dda i'r holl randdeiliaid. Mae'n darparu arweinyddiaeth bwyllog a sicr, ac fe gaiff gefnogaeth dda gan yr uwch dîm arweinyddiaeth. Mae hyn wedi helpu sicrhau diwylliant cryf o wella.

Er gwaethaf yr heriau yn sgil pandemig COVID-19, mae arweinwyr wedi cynnal eu ffocws ar wella ansawdd ac maent yn parhau i ymgysylltu'n bwrpasol â sicrhau ansawdd, lle bo modd. Mae cynllunio'r ysgol ar gyfer gwella yn ystyried y rhan fwyaf o flaenoriaethau cenedlaethol ac effaith y pandemig ar ddysgu disgyblion yn dda. Mae staff yn deall blaenoriaethau gwella'r ysgol yn dda, ac wedi ymrwymo i'w cyflawni. At ei gilydd, mae cynllunio gwelliant ar lefel arweinwyr canol yn cyd-fynd yn dda â nodau tymor byr yr ysgol a'i chyfeiriad strategol yn y tymor hwy. Fodd bynnag, nid yw cynllunio strategol yn ystyried blaenoriaethau cenedlaethol datblygu'r Gymraeg a chymhwysedd digidol yn ddigon da.

Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn symud tuag at ddarparu ymreolaeth a hyblygrwydd ar gyfer arweinwyr canol yn y ffordd y maent yn arwain eu meysydd cyfrifoldeb. Mae hyn wedi'i seilio ar ddisgwyliadau uchel o arweinwyr canol, ac ymddiriedaeth ynddynt

i gymryd perchnogaeth o ansawdd yn eu maes. Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr canol yn cynnal ystod eang o weithgareddau hunanwerthuso i nodi eu blaenoriaethau gwella. Er enghraifft, maent yn cynnal gwerthusiadau trwyadl i asesu effaith y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â meysydd targedig, er enghraifft y ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd ac ar gyfer disgyblion ag ADY mewn addysgu yn yr ystafell ddosbarth. Mae arweinwyr yn adolygu addysgu a dysgu a'r ddarpariaeth ar gyfer medrau yn rheolaidd. Maent yn gofyn beth yw barn disgyblion i wirio effaith y ddarpariaeth. O ganlyniad, mae llawer o arweinwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gref o'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu yn eu meysydd cyfrifoldeb ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i rannu arfer dda a chynllunio ar gyfer gwella.

Mewn ychydig o achosion, nid yw arweinwyr yn rhoi ystyriaeth ddigon da i effaith y ddarpariaeth ar gynnydd a lles disgyblion. O ganlyniad, nid yw eu gwerthusiad bob amser yn ddigon manwl gywir neu drylwyr. Mae hyn yn effeithio ar ba mor gywir y mae'r arweinwyr hyn yn nodi diffygion ac yn cynllunio ar gyfer gwella. Er bod yr ysgol wedi dechrau gwaith gwerthfawr ar nodi a gwella agweddau ar ofal, cymorth ac arweiniad ar gyfer disgyblion, mae ychydig o ddiffygion wrth ddadansoddi digwyddiadau'n ymwneud ag ymddygiad.

Yn gyffredinol, mae corff llywodraethol yr ysgol yn darparu cymorth a her addas, yn enwedig ynglŷn â materion ariannol. Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o'u rôl mewn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae arweinwyr yr ysgol yn monitro'r defnydd o adnoddau yn effeithiol, a defnyddir grantiau, yn cynnwys y grant datblygu disgyblion, yn dda i gefnogi cynnydd a lles disgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o staff yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn cael cymorth da gan y rhai sy'n rheolwyr llinell arnynt, gan gynnwys uwch dîm arweinyddiaeth yr ysgol. Mae cyfarfodydd rheolaidd gydag agendâu sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau strategol yr ysgol yn sicrhau bod arferion a chynnydd yn cael eu monitro'n agos mewn llawer o achosion. Defnyddir cyfarfodydd cyfadrannau a chyfarfodydd arweinyddiaeth estynedig yn dda i drafod ansawdd yr addysgu, rhannu arfer dda ac ysgogi gwelliannau.

Mae'r ysgol yn rhoi ffocws cryf ar ddefnyddio canfyddiadau o ymchwil i lywio penderfyniadau mewn llawer o agweddau ar ei gwaith. Mae pob un o'r athrawon yn ymgymryd ag ymchwil i ddatblygu eu harferion. Er bod gan staff ymreolaeth i arbrofi ac archwilio syniadau newydd, mae gofyniad addas fod ffocws ar ymchwil wedi'i gysylltu'n agos â blaenoriaethau gwella cyfadrannau neu rai'r ysgol. Mae rheoli perfformiad yn cyd-fynd yn dda â'r blaenoriaethau hyn, ac fe'i defnyddir yn effeithiol i sicrhau bod gan staff ddigon o adnoddau i archwilio eu meysydd diddordeb. Mae'r ymagwedd hon yn llwyddo i ddatblygu diwylliant o hunanfyfyrio gonest lle mae staff yn teimlo'n ddiogel wrth drafod eu cryfderau a meysydd i'w datblygu.

Mae dysgu proffesiynol yn gryfder sylweddol yn yr ysgol. Mae arweinwyr wedi ystyried ystod eang o ymchwil yn ofalus ar sut i wella addysgu. Maent yn rhannu canfyddiadau o hyn gyda staff mewn trafodaethau agored ynglŷn â sut y gellid cymhwyso strategaethau penodol mewn rhaglen weithgareddau dra ystyriol. I gefnogi hyn, caiff staff friffiau wythnosol defnyddiol ar sut i wella'u darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a'u haddysgu yn gyffredinol. Yn ychwanegol, mae staff penodol wedi cael eu hyfforddi fel anogwyr i weithio gydag

athrawon i wella agweddau penodol ar eu harferion. Hefyd, rhoddir cyfleoedd buddiol i staff ennill cymwysterau ychwanegol i gefnogi eu gwybodaeth a'u datblygiad proffesiynol. Rhoddir amser i bob aelod o staff ddilyn eu diddordebau proffesiynol eu hunain. Mae'r ffocws parhaus ar wella arferion yn yr ysgol yn cael effaith nodedig ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco, lle bo'n briodol
- yn ymweld â sampl eang o wersi, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (http://www.estyn.llyw.cymru/)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  20/07/2022